***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, RHAN 7. (See end of Document for details)*

# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 7

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH SWYDDOGAETHAU CCAUC

*Arfer swyddogaethau gan CCAUC*

### 47 Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu sefydliadau

(1) Nid oes dim byd yn y Ddeddf hon yn rhoi pŵer i CCAUC i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws—

- (a) ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n gymwys i'r corff llywodraethu yn rhinwedd bod y sefydliad yn elusen, neu
- (b) â dogfennau llywodraethu'r sefydliad.

(2) At ddibenion is-adran (1)(b), dogfennau llywodraethu sefydliad yw—

- (a) yn achos sefydliad a sefydlwyd drwy siarter Frenhinol—
  - (i) siarter y sefydliad, a
  - (ii) unrhyw offeryn sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad, y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor er mwyn gwneud neu ddiwygio'r offeryn hwnnw;
- (b) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth ac erthyglau llywodraethu'r sefydliad;
- (c) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth a'i herthyglau llywodraethu;
- (d) yn achos sefydliad a ddynodwyd o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, offeryn llywodraethu'r sefydliad a'i erthyglau llywodraethu;
- (e) yn achos sefydliad nad yw'n dod o fewn paragraffau (a) i (d) sy'n cael ei redeg gan gwmni, memorandwm y cwmni a'i erthyglau cymdeithasu.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, RHAN 7. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I2** A. 47 mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(e)**

## 48 Dyletswydd i ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academaidd

Wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon, rhaid i CCAUC ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academaidd gan gynnwys, yn benodol, rhyddid sefydliadau—

(a) i benderfynu ar gynnwys cyrsiau penodol a'r dull o'u haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu,

(b) i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr ac i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol, ac

(c) i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academaidd ac i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 48 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I4** A. 48 mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(e)**

## 49 Dyletswydd i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru

Wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon, rhaid i CCAUC ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 49 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I6** A. 49 mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(f)**

VALID FROM 01/09/2015

*Adroddiadau sydd i'w llunio gan CCAUC*

VALID FROM 01/08/2017

## 50 Adroddiadau blynyddol

(1) Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, rhaid i CCAUC gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut, yn ystod y cyfnod, y mae CCAUC wedi arfer ei swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Cyn gynted â phosibl ar ôl cael adroddiad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, RHAN 7. (See end of Document for details)*

(3) Rhaid i'r adroddiad gydymffurfio ag unrhyw ofynion y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu drwy gyfarwyddyd i CCAUC.

(4) Caiff y gofynion hynny gynnwys gofynion o ran ffurf a chynnwys yr adroddiad.

(5) At ddibenion yr adran hon y cyfnod adrodd cyntaf yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym, a

(b) sy'n dod i ben ar ba ddiwrnod bynnag yw'r cynharach o flwyddyn ar ôl y diwrnod hwnnw, a diwrnod a bennir gan CCAUC mewn hysbysiad a roddir i Weinidogion Cymru.

(6) Y cyfnodau adrodd dilynol yw pob cyfnod olynol o 12 mis.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu gofynion y mae hysbysiad a roddir fel y'i disgrifir yn is-adran (5) i gydymffurfio â hwy (gan gynnwys o ran ffurf a chynnwys, a'r adeg y mae i'w roi); ac nid yw'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei roi at ddibenion is-adran (5) oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 50 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I8** A. 50 mewn grym ar 1.8.2017 gan O.S. 2017/239, **ergl. 2**

## 51 Adroddiadau arbennig

(1) Rhaid i CCAUC, os y'i cyfarwyddir i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, adrodd i Weinidogion Cymru ar unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cydymffurfedd ag adran 10(1) gan sefydliadau o fewn adran 10(2) yn gyffredinol neu gan sefydliad penodol;

(b) cydymffurfedd â gofynion cyffredinol cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol, neu â gofynion cyffredinol cynllun penodol a gymeradwywyd;

(c) effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol, neu effeithiolrwydd cynllun penodol a gymeradwywyd, wrth hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch;

(d) unrhyw faterion eraill a bennir yn y cyfarwyddyd sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch;

(e) ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol, neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig penodol;

(f) cydymffurfedd gan sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol, neu gan sefydliad rheoleiddiedig penodol, â gofynion y Cod.

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) bennu—

(a) ffurf a chynnwys adroddiad a wneir at ddibenion yr adran hon;

(b) pryd y mae'r adroddiad i'w wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 51 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, RHAN 7. (See end of Document for details)*

### *Gwybodaeth arall etc sydd i'w rhoi gan CCAUC*

**52 Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd**

(1) Rhaid i CCAUC lunio a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd.

(2) O ran CCAUC—

(a) rhaid iddo adolygu'r datganiad yn gyson;

(b) caiff ei ddiwygio.

(3) Cyn cyhoeddi'r datganiad neu ddatganiad diwygiedig, rhaid i CCAUC ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig, a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) llunio'r datganiad (gan gynnwys o ran ei ffurf a'i gynnwys);

(b) ei gyhoeddi;

(c) yr ymgynghoriad sydd i'w gynnal o dan is-adran (3).

(5) Swyddogaethau ymyrryd CCAUC yw ei swyddogaethau o dan y darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 11 (cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu);

(b) adran 13 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd);

(c) adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol);

(d) adran 20(1) a (2) (mesurau eraill mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol);

(e) adran 33 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod);

(f) adran 34(1) a (2) (mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod);

(g) adran 37 (gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd);

(h) adrannau 38 a 39 (tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 52 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I11** A. 52(1) mewn grym ar 25.5.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(g)**

**I12** A. 52(4) mewn grym ar 20.5.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/1327, **ergl. 2(r)**

**I13** A. 52(5) mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(h)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, RHAN 7. (See end of Document for details)*

VALID FROM 01/09/2015

### 53 Gwybodaeth a chyngor sydd i'w rhoi gan CCAUC i Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i CCAUC, os y'i cyfarwyddir i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff CCAUC roi i Weinidogion Cymru wybodaeth a chyngor arall sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** A. 53 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

### 54 Gwybodaeth a chyngor arall

(1) Caiff CCAUC—

(a) adnabod arfer da sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch, a

(b) rhoi gwybodaeth a chyngor ynghylch yr arfer hwnnw i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig, neu i gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol.

(2) Wrth arfer ei swyddogaethau, mae corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig i ystyried unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan CCAUC iddo ef, neu i gyrff llywodraethu yn gyffredinol, o dan is-adran (1)(b).

(3) Caiff CCAUC ddarparu unrhyw wybodaeth a chyngor arall sy'n briodol yn ei farn ef gan roi sylw i'w swyddogaethau a swyddogaethau sefydliadau rheoleiddiedig (ymhlith pethau eraill).

(4) Caiff yr wybodaeth a'r cyngor hynny (ymhlith pethau eraill) ymwneud â'r canlynol—

(a) pwerau a dyletswyddau sefydliadau rheoleiddiedig;

(b) trefnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig;

(c) effaith cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I16** A. 54(3)(4) mewn grym ar 25.5.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 3(i)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, RHAN 7.